## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

837 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

838 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton a B. Loveluck-Edwards.

839 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd Franks fudd yn eitem Agenda 4 – Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2022/23 (CYF) gan iddo gael gddefeb o'r Pwyllgor Safonau i siarad ar faterion yn ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Gweithgareddau Dinas Powys (gan gynnwys ceisiadau grant) dim ond pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Bro Morgannwg a Dinas Powys.

Datganodd y Cynghorydd Goodjohn fudd yn Eitem Agenda 3 – Polisi a Strategaeth Caffael (CYF). Natur ei fudd oedd ei fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ac yn debygol o elwa o Academïau Sgiliau a lwfansau hyfforddi y cyfeirir atynt yn y gyfeirnod / adrodd. Roedd hwn yn fudd personol a rhagfarnus (siaradodd y Cynghorydd Goodjohn yn y cyfarfod ar hyn, fel y gallai aelod o'r cyhoedd, ond yna tynnodd yn ôl yn syth o'r cyfarfod am weddill yr eitem sy'n cael ei thrafod).

840 POLISI A STRATEGAETH CAFFAEL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023 ei chyflwyno gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 er ystyriaeth y Pwyllgor.

Dyma Bolisi a Strategaeth cymharol uchelgeisiol, a ffrwyth llafur sylweddol ar draws y Cyngor cyfan. Roedd y fersiwn gyfredol hon o'r Polisi a'r Strategaeth wedi symud ymlaen o fersiwn 2018 ac erbyn hyn yn gyson â'r Cynllun Corfforaethol diweddaraf yn ogystal â mentrau polisi Llywodraeth Cymru (LlC) yn nhermau caffael. Roedd y Polisi a'r Strategaeth newydd hefyd yn gyfle i symleiddio a chryfhau'r amcanion yn gysylltiedig â pholisi, gan gynnwys mwy o amlygrwydd i Brosiect Sero a mwy o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) a busnesau lleol. Byddai pwyslais ychwanegol hefyd ar werth cymdeithasol ac ar 'ymestyn' cyflenwyr y Cyngor er mwyn helpu i ganlyn amcanion y Cyngor, gan gynnwys safonau gofynnol disgwyliedig a safonau a ffafrir, a cheisio gwahaniaethu rhwng cwmnïau bach a mawr hefyd. Roedd y Polisi a'r Strategaeth hefyd wedi cael eu rhannu â 25 o gyflenwyr presennol y Cyngor, gan dderbyn 18 o ymatebion a oedd yn cynnwys adborth fel pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ynghylch y Polisi a'r Strategaeth.

Gofynnwyd wedyn i'r Is-gadeirydd siarad ar y mater, a nodwyd ei fod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus yn gysylltiedig â'r eitem hon, felly byddai'n gadael y cyfarfod ar ôl iddo wneud ei sylwadau. Cododd nifer o bwyntiau, gan gynnwys pwysigrwydd y Polisi a'r Strategaeth yn gysylltiedig ag ymdrechion y Cyngor i fod yn sefydliad Sero Net erbyn 2030, yr angen am eglurhad gwell ynghylch yr hyn yr oedd oriau gwaith gormodol yn ei olygu, a'r angen i gynnwys ymrwymiad i gyflenwyr dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cyflogeion. Dywedodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y byddai'n ymchwilio i sylwadau'r Is-gadeirydd ac yn awgrymu geiriad ychwanegol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor:

- Gwnaeth y Cynghorydd Haines sylw ynghylch prinder swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor i gynorthwyo gyda'r Strategaeth a Pholisi Caffael, a'r ffaith nad oedd unrhyw flaengynllun, a hefyd fod angen i'r Pennaeth Adran perthnasol fynd ar drywydd hyn. Awgrymodd hefyd y dylai busnesau a chyflenwyr yn y Fro gael eu trin yn fwy ffafriol yn nhrefniadau caffael y Cyngor, ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar werth am arian yn y Polisi a'r Strategaeth.
- Holodd y Cynghorydd Carroll beth oedd prif ystyriaeth y Polisi a'r Strategaeth, gan ddweud mai gwerth am arian a ddylai fod wrth wraidd Strategaeth Gaffael y Cyngor a'r amcanion yn y strategaeth honno; mewn ymateb i hyn, y brif ystyriaeth oedd adlewyrchu'r newidiadau sylweddol a gafwyd ers y fersiwn flaenorol, hy, lleihau carbon a mwy o bwyslais ar arferion mwy moesegol. Roedd angen gwneud y Polisi a'r Strategaeth yn fwy uchelgeisiol hefyd, gyda mwy o ffocws ar y Polisi ei hun, ac ar greu dogfen 'gorfforaethol' fwy cyffredinol. Roedd angen ei symleiddio hefyd i sicrhau mwy o sylw i'r agweddau yr oedd y Cynghorydd yn eu hystyried yn flaenoriaeth, fel amcan llawer cadarnach i sicrhau gwerth am arian yn rhan

o'i 8 o amcanion polisi. Byddai safle'r amcan allweddol hwn yn cael ei ystyried a byddai'n symud yn uwch i fyny'r rhestr o amcanion pe bai'n briodol.

- Mynegodd y Cynghorydd Wood bryderon ynghylch effaith y safonau gofynnol disgwyliedig a'r safonau a ffafrir ar gyfer caffael ar gyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr y Cyngor, yn enwedig cwmnïau lleol o faint llai. Cyfeiriodd hefyd at yr angen am eglurder ynghylch pryd yr oedd angen i gyflenwyr gyrraedd Sero Net. Yn olaf, holodd a oedd y Polisi a'r Strategaeth yn gyson â Pholisi a Strategaeth Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, dywedwyd bod mwyafrif y cyflenwyr a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg (o drawstoriad eang o fusnesau) wedi cadarnhau eu hymrwymiad i Sero Net a gwerth cymdeithasol. Oherwydd gwaith parhaus gyda Chyngor Caerdydd mewn meysydd fel y trefniant i rannu gwasanaethau, roedd trefniadau caffael wedi'u halinio hefyd ac ymgynghoriad wedi'i gynnal â chyflenwyr y Cyngor ynghylch safonau gofynnol. Oherwydd hyn, roedd y safonau wedi cael eu gwahaniaethu i adlewyrchu maint a gallu'r busnesau a oedd yn ceisio'u cyflawni.
- Soniodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau wrth y Pwyllgor am fanteision posibl y Polisi a'r Strategaeth, gan gyfeirio at y manteision a gafwyd yn sgil ymagwedd debyg a fabwysiadwyd drwy'r prosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, drwy greu swyddi a rhoi hwb i'r economi leol. Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda'r BBaChau i'w helpu i gyrraedd Sero Net ac ymrwymo i drefniadau caffael â'r Cyngor. O ran gwerth am arian ac ati, roedd y Cyngor yn monitro hynny drwy'r canlyniadau, hy, helpu busnesau i dyfu, i uwchsgilio a sicrhau bod y Cyngor yn derbyn gwasanaethau neu nwyddau o ansawdd da, a bod yn ystyriol o'r ôl troed carbon ar yr un pryd.
- Roedd y Cadeirydd yn croesawu'r fersiwn newydd wedi'i diweddaru o'r Strategaeth a'r Polisi, a oedd yn cynnig fframwaith i'r Cyngor ar gyfer caffael, ynghyd â rhestr o safonau cynhwysfawr y byddai'r Fro yn disgwyl i gwmnïau eu cyrraedd pe baent yn dymuno dod yn gyflenwr contract, a'r rhestr o Themâu, Canlyniadau, Mesurau a Safonau ar gyfer yr holl fesurau Gwerth Cymdeithasol posibl. Croesawyd y ffocws ar Werth Cymdeithasol yn y Strategaeth, ac er eglurder esboniodd y Cadeirydd fod gwerthuso tendrau ac adrodd ar Leihau Carbon a Gwerth Cymdeithasol yn rhywbeth yr oedd pob Awdurdod Lleol yn ei wneud, wrth symud ymlaen. Roedd cynnwys 'gweledigaeth' gyffredinol LlC ar gyfer caffael o gymorth i sefydlu'r cyd-destun, ond byddai wedi bod yn fwy priodol cael gweledigaeth benodol i Fro Morgannwg hefyd. Roedd y Strategaeth hon braidd yn brin o fetrigau perfformiad, a byddai angen dadansoddiad o wariant ar Lefel Cyfarwyddiaeth ac ar sail Categori er mwyn gallu rheoli gwariant ar gaffael i'r dyfodol. Gan fod gwariant wedi'i ddatganoli i'r Cyfarwyddiaethau, byddai angen ymagwedd fwy llym at lywodraethu i sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Sector Cyhoeddus. Yn olaf, dylid cynnwys cynllun gweithredu i gynnwys yr hyn y gellid ei gyflawni am y flwyddyn, a chan mai dogfen 'fyw' oedd y Strategaeth Gaffael i fod, dylid ei hadolygu'n flynyddol. Drwy gydweithio'n barhaus â Chyngor Caerdydd, eglurwyd y byddai gan y Cyngor fynediad at gymorth arbenigol mewn meysydd caffael allweddol, hy, adeiladu. Byddai fersiynau pellach o'r Polisi a'r Strategaeth yn cynnwys data ychwanegol, ee, dadansoddiad fesul categori a

Chyfarwyddiaeth. Byddai Cynllun Gweithredu a Datblygu hefyd yn cael ei gynnwys, ynghyd â chofrestr fwy trylwyr o gontractau, yn rhan o'r gwaith ar gyfer y gwasanaethau a gynhelir ar y cyd â Chaerdydd. Byddai'r Polisi a'r Strategaeth hefyd yn ddogfen(nau) f/byw.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Bod y Cabinet yn cael gwybod am y newidiadau materol arfaethedig canlynol a argymhellir gan y Pwyllgor ynglŷn â'r Polisi a'r Strategaeth Caffael, i'w hystyried:

- Bod y Polisi a'r Strategaeth yn cynnwys y gofyniad bod busnesau, y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â nhw o ran caffael, yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Bod y Polisi a'r Strategaeth yn cynnwys mwy o eglurhad ar beth yw oriau gwaith gormodol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am y newidiadau materol arfaethedig a argymhellir fel rhan o'u hystyried o'r Polisi a'r Strategaeth.

841 CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2023-2028 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror, 23 ei chyflwyno i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gweithredol (Eiddo). Pwrpas yr eitem a gyfeiriwyd/yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor ystyried fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun.

Roedd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi cael ei greu mewn ymgynghoriad â swyddogion o holl adrannau'r Cyngor. Roedd yn nodi'r strategaeth a'r fethodoleg ar gyfer rheoli asedau tir ac eiddo'r Cyngor, gan ddisodli'r fersiwn flaenorol. Roedd y Cynllun yn ategu ac yn cefnogi fframwaith sefydliadol a strategaethau'r Cyngor (gan gynnwys Project Sero), yn rhan o'i reolaeth ar asedau tir ac eiddo'r Cyngor, ac i sicrhau portffolio cynaliadwy diwastraff a oedd yn addas i'r diben ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor:

- Mewn ymateb i ymholiad yr Is-Gadeirydd ynglŷn ag arolygon cyflwr eiddo, eglurwyd bod y tîm wedi cychwyn ar raglen o ailarolygon, gan ddechrau gyda'r Ysgolion Cynradd. Y nod oedd peidio cael yr un arolwg a oedd yn fwy na 5 mlwydd oed, er bod rhai ar hyn o bryd yn hŷn na hynny, ac oherwydd hynny roedd yr arolygon hynny wedi cael blaenoriaeth. O ran yr adeiladau hynny y tybiwyd eu bod mewn cyflwr 'gwael', byddai gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio.
- Yng nghyswllt ymholiad yr Is-gadeirydd ynghylch y Cynllun ac ynghylch troi'r Stad Gorfforaethol yn Sero Net erbyn 2030, byddai hyn yn cael ei ystyried wrth ddiweddaru Cynllun Rheoli Carbon/Strategaeth Sero Net y

Cyngor. Roedd allyriadau o'r Stad Gorfforaethol eisoes wedi gostwng tua 12% ers Datgan yr Argyfwng Hinsawdd. Roedd paneli solar ac ati hefyd wedi cael eu gosod ar 18-20 o adeiladau'r Cyngor, a cheisiadau cyfalaf wedi'u gwneud yn gysylltiedig â gwaith pellach i uwchraddio adeiladau drwy osod LED/paneli solar. Byddai gwaith i ddiweddaru'r Cynllun Rheoli Carbon yn cynnwys nifer o randdeiliaid mewnol eraill ar draws y Cyfarwyddiaethau, ac ni fyddai'n ymwneud ag eiddo/asedau yn unig.

- Roedd y Cynghorydd Haines yn pryderu am yr adran o'r adroddiad a oedd yn trafod Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chywirdeb y datganiad ynghylch llwyddiant a chynaliadwyedd y pum Llyfrgell Gymunedol a drosglwyddwyd fel Asedau Cymunedol, gan gyfeirio at ei brofiadau ei hun o'r llyfrgell yn Sain Tathan a oedd wedi wynebu llawer o broblemau. Cynhaliodd y Pwyllgor bleidlais ar ei gynnig i ddileu'r datganiad hwn, ond ni phasiwyd hynny, wrth i'r Aelodau eraill gyfeirio at lwyddiant gwasanaethau llyfrgell yn rhannau eraill o'r Fro (ee, enghraifft y Cynghorydd Franks o lwyddiant Llyfrgell Dinas Powys, ar ôl trosglwyddo'r ased i'r gymuned leol, a'r ffaith bod Llyfrgell Sain Tathan yn dal i fodoli ar ôl trosglwyddo'r ased). Cafwyd cyfraniadau pellach gan yr Arweinwyr Gweithredol a'r Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau a gyfeiriai at lwyddiant cyffredinol llyfrgelloedd cymunedol ar ôl i'r asedau gael eu trosglwyddo. Cynigiodd y Rheolwr Gweithredol (Eiddo) fod ar gael i'r Cynghorydd Haines os oedd yn dymuno trafod unrhyw faterion yn gysylltiedig ag asedau yng nghyswllt Llyfrgell Sain Tathan.
- Ar bwynt ehangach y Cynghorydd Haines (a adleisiwyd gan y Cadeirydd) ynghylch cymorth ychwanegol i gymunedau a gwirfoddolwyr reoli asedau ar ôl Trosglwyddo Asedau Cymunedol, eglurwyd bod cymorth ar gael gan y Cyngor i gymunedau ar y cyd ag Un Llais Cymru (a bod hyn yn cael ei godi drwy drafodaethau yn Ystadau Cymru) lle bo modd, yn enwedig mewn meysydd mwy arbenigol. Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) hefyd yn ystyried adolygu fersiwn gyfredol y Canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – BOD y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028 yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

842 DIWEDDARIAD AR Y COD RHEOLAETH ARIANNOL 2022/23 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023 ei chyflwyno gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg. Pwrpas yr eitem a'r adroddiad oedd i'r Pwyllgor ystyried diweddariad y Cod Rheoli Ariannol a chyflwyno unrhyw sylwadau'n ôl i'r Cabinet.

Roedd y diweddariad yn rhoi manylion am gynnydd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 yn ogystal â'r rhagolygon am welliant yn nhermau'r Cod (a gyflwynwyd gan CIPFA i gefnogi arfer da wrth reoli arian a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol), a adlewyrchai'r ymarfer ariannol da a oedd ar waith mewn llawer o sefydliadau, ond a oedd hefyd yn cydnabod bod lle i wella hefyd; er hynny, roedd teimlad bod y Cyngor eisoes mewn sefyllfa cymharol gadarn.

Dyma'r pwyntiau eraill a godwyd:

- Y newidiadau o bwys yng nghyswllt rheoli ariannol, hy, y Swyddog Adran 151 newydd a'r Aelodau Lleyg ychwanegol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn helpu i gryfhau'r Cod a'r broses.
- Bu cynnydd da yn nhermau elfen cydgyfrifoldeb y Cod Rheoli Ariannol, gyda'r Uwch Dîm Arwain yn cymryd rhan yn llawn yn y broses o baratoi cyllideb 2023/24.
- Cynigiwyd y dylid cyflwyno cynllun gweithredu a diweddaru'r geiriad yn gysylltiedig ag asesu risg, a'r posibilrwydd o gynnal gweithdy rheoli risg ac 'adolygiad cymheiriaid'.

Yn dilyn yr adroddiad, cododd yr Is-Gadeirydd ymholiad ynghylch sut, fel rhan o'r Safonau Rheoli Ariannol, y byddai'r UDA yn gallu dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod yn cynnig gwerth am arian. Esboniwyd bod contractau mawr, adroddiadau monitro'r gyllideb a chaffael strategol yn cael eu trafod â'r UDA, gyda'r nod o adolygu arferion a rheoli ariannol ar draws y Cyngor. Ni fyddai hyn ond yn cynyddu dros amser.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – BOD diweddariad y Cod Rheoli Ariannol 2022/23 yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

843 ARCHWILIO CYMRU: GWANWYN YMLAEN – RHEOLI ASEDAU A CHYNLLUNIO GWEITHLU BRO MORGANNWG (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ian Phillips, Archwilio Cymru, fel rhan o raglen waith archwiliadau blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22. Cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddau adolygiad a edrychai ar y trefniadau strategol ar gyfer rheoli asedau a gweithlu'r Cyngor. Roedd y gwaith hwn yn rhan o adolygiad thematig cenedlaethol, 'Llamu Ymlaen' a gynhaliwyd ym mhob Cyngor yng Nghymru ac a oedd wedi canolbwyntio ar y ddau faes hyn. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiadau a oedd wedi'u hatodi, gan gynnwys ymateb y Cyngor (ar ffurf cynllun gweithredu - Atodiad C). Dywedwyd y dylid cyfeirio unrhyw argymhellion/sylwadau i sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

ac, wedi hynny, i'r Cabinet er mwyn iddo ystyried ac ategu'r camau a gynigir i fynd i'r afael â'r argymhellion.  Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Roedd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor o ran rheoli ei asedau a'i weithlu yn strategol.  Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y modd yr oedd y Cyngor yn cynllunio'r defnydd o'i asedau a'i weithlu ffisegol yn strategol, sut roedd yn monitro'r defnydd ohonynt a sut roedd yn adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau. Roedd y gwaith hwn wedi'i wneud yn ystod adferiad y Cyngor ar ôl pandemig COVID-19.
- Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol, ac roedd tri argymhelliad wedi'u cyflwyno i'r Cyngor (un ar asedau a dau ar gynllunio'r gweithlu) er mwyn cryfhau gweithrediad yr egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'i asedau ac wrth gynllunio'r gweithlu.
- Mewn ymateb i'r argymhellion, roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Rheolwr Gweithredol Eiddo a'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol wedi creu cynlluniau gweithredu a fyddai'n cael eu datblygu gan y Cyngor.  Yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor, byddai cynnydd yn erbyn ei feysydd gwella rheoleiddio yn cael eu monitro.  Byddai cynnydd hefyd yn cael ei fonitro gan Archwilio Cymru fel rhan o raglen gwaith archwilio blynyddol y Cyngor.

Yn dilyn yr adroddiad, cododd yr Is-Gadeirydd  ymholiad ynghylch Atodiad C a'r cynnydd sy'n cael ei wneud er mwyn cryfhau'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn y Cyngor.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod yr agwedd hon wedi'i hymgorffori yn y ddau Gynllun Gweithredu a ddatblygwyd yn rhan o'r argymhellion o'r adroddiadau hyn. Roedd Craffu hefyd wedi ystyried y rhain ac roeddent wedi'u cynnwys yn y Traciwr Mewnwelediad i'w hadolygu gan y Bwrdd Mewnwelediad.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad o reolaeth asedau y Cyngor (Atodiad A i'r adroddiad) a threfniadau cynllunio'r gweithlu (Atodiad B i'r adroddiad) a'r ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad C i'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo a'u nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet am eu goruchwyliaeth a chymeradwyo gweithredoedd arfaethedig y Cyngor (Atodiad C i'r adroddiad ) i fynd i'r afael â'r argymhellion.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

844 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CAC) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn disgrifio'r gweithgareddau a gynlluniwyd gan wasanaethau (fel yr amlinellwyd mewn Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad a oedd oddi mewn i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu. Roedd y rhain yn amlinellu'r meysydd ffocws penodol a oedd yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/2024, fel yr oedd yn gyson â phedwar Amcan Llesiant ei Gynllun Corfforaethol. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu cyfraniadau gan wasanaethau sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a fyddai o gymorth i gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 fel y nodir yn Atodiadau'r adroddiad.

Roedd yr ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 wedi'u hadlewyrchu mewn 15 Cynllun Gwasanaeth a oedd wedi'u darparu, er gwybodaeth, ym mhapurau cefndir yr adroddiad. Roedd y cynlluniau hyn yn dangos sut y byddai meysydd gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni pedwar Amcan Llesiant y Cyngor yn gyffredinol, a sut y byddai adnoddau'n cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw, o fewn fframwaith trawswasanaeth.

Roedd cyfres o weithgorau anffurfiol wedi cael eu sefydlu i Aelodau i roi adborth ar gyflwyno gwybodaeth yn gysylltiedig â pherfformiad corfforaethol, hy, cael pob un o'r 15 o gynlluniau gwasanaeth fel papurau cefndir yn hytrach nag atodiadau.

Cyfeiriwyd at Atodiad A, a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau a gynllunnir ar gyfer 2023/24, fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth, ac fel roeddent yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Cyfeiriwyd hefyd at Atodiad B, a oedd yn ymdrin â thargedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024 a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y rhain wedi cael eu symleiddio ac yn manylu ar gamau trawsbynciol, targedau arfaethedig a mesurau presennol, yn ogystal â dangosyddion arfaethedig a'r rhai a fyddai'n cael eu dileu.

Yn dilyn yr adroddiad, dywedodd yr Is-gadeirydd fod angen dangosydd perfformiad ychwanegol ar gyfer amseroedd ymateb C1V i alwadau ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol o fewn oriau gwaith. Byddai'r rhain o gymorth i fonitro prydlondeb amseroedd ymateb i alwadau gan breswylwyr ac yn meithrin hyder ymhlith y cyhoedd, ac yn golygu mwy o ymgysylltu rhwng y gymuned a C1V. Awgrymodd hefyd y dylid ychwanegu dangosydd perfformiad ychwanegol ynghylch cyflawniad a pherfformiad cynlluniau yn gysylltiedig â Phrosiect Sero at y mesurau a'r targedau yn rhan o'r gweithgareddau a gynllunnir gan wasanaethau ar gyfer 2023/24. Byddai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn rhannu'r awgrymiadau ynghylch C1V â'r swyddogion perthnasol i weld sut orau y gellid adrodd y rhain. Ar Brosiect Sero, byddai sylwadau'r Is-Gadeirydd yn cael sylw drwy adrodd ar berfformiad Prosiect Sero yn rheolaidd i'r Pwyllgorau Craffu, dangosyddion penodol o fewn y Cynlluniau Gwasanaeth/Cynllun Datblygu Blynyddol, a hefyd drwy'r adroddiadau Monitro Cyfalaf.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel y'u ceir yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A i’r adroddiad), yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD, mewn perthynas â’r mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024 yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B i'r adroddiad), cyfeirir y canlynol at y Cabinet am eu hystyried:

- Cynnwys dangosyddion perfformiad ynghylch amseroedd cyswllt Cyswllt Un Fro a pha mor hir mae'n ei gymryd i Cyswllt Un Fro ymateb i ymholiad dros y ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol o fewn oriau gwaith. I gynnwys amseroedd ymateb cyfartalog a chanran yr ymatebion sydd dros yr amseroedd ymateb penodol.
- Cynnwys dangosydd perfformiad ar berfformiad Prosiect Sero.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y dangosyddion perfformiad ychwanegol arfaethedig, ac er mwyn sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi cyfres berthnasol o fesurau perfformiad a thargedau y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2023/2024.

845 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (CAC) –

Roedd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn nodi cynnydd y Cyngor yn Chwarter 3 (Ch3) (1 Ebrill, 2022 hyd 31 Rhagfyr, 2022) tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) sy'n gyson ag Amcanion Llesiant ei Gynllun Corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau unioni a gynigiwyd i fynd i'r afael â meysydd lle nodwyd tanberfformiad.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch3 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma er mwyn cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd a oedd oddi mewn i gylch gwaith y Pwyllgor. Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i'r mwyafrif helaeth ohonynt.

Tynnodd y Cyfarwyddwr hefyd sylw'r Pwyllgor at y cyflawniadau penodol a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a oedd yn gyson â'r pedwar Amcan Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol, del yr amlygwyd yn Atodiad A yr adroddiad, yn amrywio rhwng dyfarnu statws Awdurdod Arloesi Efydd Race Equality Matters i'r Cyngor a chynyddu nifer y Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan a oedd i'w gosod yng nghyfleusterau'r Cyngor. Cyfeiriodd hefyd at feysydd ffocws a gwelliant i'r dyfodol, yn amrywio rhwng y Strategaeth Pobl a chymorth parhaus yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

Er rhwyddineb wrth gyfeirio, roedd eithriadau perfformiad a oedd yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn amlygu statws cyfredol camau gweithredu a nodwyd yn goch yn y chwarter blaenorol i ddangos y trywydd, a'r camau unioni a gynigiwyd ac a gymerwyd i symud ymlaen â'r gweithredoedd hyn.

Yn unol â threfniadau rheoli perfformiad corfforaethol, rhoddodd gwasanaethau perthnasol y Cyngor ystyriaeth i'r canfyddiadau a oedd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol wrth iddynt gael eu cyhoeddi, ac roedd camau gweithredu wedi'u hymgorffori yn nhraciwr Bwrdd Mewnwelediad Strategol (BMS) y Cyngor drwy gydol y flwyddyn fel bo'n briodol. Gofynnwyd i'r Aelodau argymell i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet y dylid dileu'r camau a gwblhawyd o'r Traciwr Mewnwelediad a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at effaith prinder staff ac ati ar weithredu’r Cynlluniau Gweithredu Rheoli Carbon ac LHDTC+, yn ogystal â’r 9.4 diwrnod gwaith/sifftiau CALl a gollwyd oherwydd salwch yn ystod Ch3. Eglurwyd bod y pwysau hyn yn cael sylw, gan gynnwys gwaith yn ymwneud â'r Strategaeth Pobl a defnydd helaethach o brentisiaethau, er bod heriau'n parhau, hy, y galw o fewn y Sector Cyhoeddus a thu hwnt am bobl â setiau sgiliau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio ac ynni. Yn y cyfamser, byddai darparwyr allanol ac adnoddau ychwanegol eraill yn cael eu darparu i helpu gyda'r Cynllun Rheoli Carbon ac ati. Byddai costau'r darparydd allanol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor pan fyddent ar gael. O ran yr ymholiad ynghylch Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle, byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor cyn bo hir, ond roedd y Cyngor wedi codi'n ddiweddar i safle uwch.
- Mynegodd y Cynghorydd Haines bryder ynghylch y canfyddiad bod prinder 'mannau cynnes' a chymorth tebyg yn ardaloedd gwledig y Fro, ac y dylid cysylltu â Thafarndai a mannau tebyg mewn cymunedau lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn creu'r mannau hynny. Esboniwyd bod pryderon o'r fath yn cael eu datrys er mwyn cynnig mannau cynnes ychwanegol yn ogystal â mannau a fyddai'n helpu pobl i osgoi'r ymdeimlad o unigrwydd neu o fod ar wahân, ac i gael cymorth a chyngor ynghylch costau byw. Mynegodd y Cynghorydd hefyd bryderon (a adleisiwyd gan y Cynghorydd Carroll) ynghylch Prosiect Oracle a llithriant a chostau parhaus y prosiect, a'r defnydd o ymgynghorwyr allanol yn gysylltiedig â hynny. Roedd y Cyngor bellach yn gweithio tuag at ddyddiad 'dod yn fyw' o 1 Ebrill, 2023 ar

gyfer Oracle, a byddai adroddiad ar 'y gwersi a ddysgwyd' neu adroddiad 'myfyriol' yn cael ei gyflwyno cyn hir, yn unol â chais blaenorol y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) BOD, o ran camau adferol i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, y Pwyllgor yn cael ei ddyfynnu ar y ddogfen 'myfyrdodau' mewn perthynas â Phrosiect Oracle unwaith y bydd hyn wedi'i weithredu.

(3) BOD y cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor yn cael eu cymeradwyo, ac argymhellir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet bod y camau gorffenedig canlynol gan y Traciwr Insight, fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, yn cael eu dileu:

- Adolygiad Trosolwg a Chraffu Sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol (7 gweithred).

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion o ran perfformiad a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol cenedlaethol a lleol.

846 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2023 (CAC) –

Roedd yr adroddiad monitro, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifyddu, yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd yn gysylltiedig â gwariant refeniw ar gyfer y
cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Ionawr, 2023. Dyma oedd y prif uchafbwyntiau:

- Roedd £1.5m yn ychwanegol o'r gyllideb wedi'i ddyrannu i ysgolion yn 2022/23 er mwyn cyfrannu at gostau ychwanegol dyfarniad cyflog 2022/23. Roedd hyn wedi'i ariannu o Incwm Treth Gyngor ychwanegol a ragwelwyd yn 2022/23, ac felly roedd y Gyllideb Sylfaenol wedi'i chynyddu i adlewyrchu'r incwm a ragwelwyd.
- Pwysau ychwanegol ar Wasanaethau Cymdogaeth, gan gynnwys y codiad cyflog yn gysylltiedig â grymoedd y farchnad a ddyfarnwyd i'r holl yrwyr cerbydau gwastraff yn sgil y prinder cyfredol o fewn y farchnad lafur, a chymorth ychwanegol i ddarparydd canolfannau hamdden y Cyngor yn sgil COVID-19. Gwelwyd hyn hefyd yng Nghyllideb y Gwasanaethau Priffyrdd ar gyfer Tyllau yn y Ffyrdd, lle byddai angen tynnu arian i lawr o'r cronfeydd wrth gefn, ymhlith mesurau eraill, yn ogystal â'r gyllideb ysgolion (hy, trafnidiaeth i'r ysgol) - byddai angen rhywfaint o gyllid ychwanegol a thynnu arian i lawr o'r cronfeydd ar gyfer hynny hefyd. Roedd sefyllfa debyg i'w gweld o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd.
- Bu mymryn o ostyngiad yn yr arian a dynnwyd i lawr o'r cronfeydd i ddibenion Cyfalaf, yn sgil llithriant.
- O ran Rheoli'r Trysorlys, roedd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio benthyciadau mewnol, gan leihau'r angen i dderbyn benthyciadau allanol ychwanegol yn sgil hynny. Gan fod y cyfraddau llog yn uwch, roedd y Cyngor hefyd yn elwa ar rywfaint o warged ychwanegol o'i fuddsoddiadau.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Ynglŷn ag ymholiad y Cynghorydd Haines ynghylch Gorwariant Cynllun Cyflenwi Hirdymor yr Ysgolion, y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, esboniwyd bod y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn gweithredu math o gynllun yswiriant salwch. Gallai'r ysgolion ddewis ymuno â'r cynllun i gael yswiriant ar gyfer sefyllfaoedd pan fyddai staff dysgu ac athrawon yn sâl, gan gynnwys talu costau staff cyflenwi a fyddai'n cael eu darparu. Yn sgil y gorwariant byddai hyn yn cael ei adolygu.
- Mewn ymateb i gwestiynau dilynol y Cynghorydd Haines ynghylch Swyddi Dros Dro Swyddog Cyswllt ac Ymgysylltu, a'r risgiau posibl yn gysylltiedig â rhoi benthyciadau i Awdurdodau Lleol (ALlau) eraill, i ddechrau esboniwyd bod y swyddi Swyddog Cyswllt ac Ymgysylltu wedi cael eu hariannu'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gefnogi presenoldeb mewn ysgolion. Gan fod cyllid LlC wedi gostwng, bu'n rhaid tynnu arian o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r swyddi hynny. Wrth fenthyca i ALlau eraill, esboniwyd bod lefel o amddiffyniad cyfreithiol a thanysgrifennu yn gysylltiedig ag unrhyw symiau y byddai'r Cyngor yn eu rhoi ar fenthyg, ac roedd gan y Cyngor hefyd restr o'r ALlau hynny na fyddai'n rhoi benthyciad iddynt oherwydd eu hamgylchiadau.
- O ran ymholiad y Cadeirydd ynghylch negodi cyflogau Athrawon, ac a fyddai LlC yn helpu i dalu unrhyw gynnydd mewn cyflogau, yr adborth gan yr undebau llafur perthnasol oedd bod angen i LlC ariannu hyn yn llawn, ac roedd hynny hefyd wedi'i adlewyrchu mewn datganiad diweddar gan LlC.
- Ynglŷn â phryderon parhaus y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch y taliad ychwanegol i ganolfannau hamdden o ganlyniad i'r contract gwasanaethau hamdden, esboniwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael manylion ac eglurhad

pellach ynghylch hyn, ac yr eid ar ôl yr adroddiad ychwanegol a argymhellwyd ar y contract gwasanaethau hamdden.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI'R trefniadau i wrthbwyso'r gorwario rhagamcanol yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI Cyllideb Refeniw ddiwygiedig 2022/23 o £290.574m sy'n adlewyrchu cynnydd o £1.5m ar gyfer Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig i'w ariannu o Incwm Treth Gyngor ychwanegol.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

847 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 IONAWR 2023 (CAC) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifyddu, yn rhoi diweddariad er ystyriaeth yr Aelodau ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill, 2022 hyd 31Ionawr, 2023, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, Pwerau Argyfwng ac unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd wedi hynny, a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd a phwysau sylweddol ar gostau, a allai olygu bod angen ailbeiriannu neu aildendro cynllun, gan achosi oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn dweud bod angen disgwyl yn hir i ddeunyddiau gyrraedd, a bod prinder staff medrus mewn rhai meysydd.
- Roedd yr adroddiad yn nodi mai cost y Rhaglen gymeradwy gyfredol oedd £88.2m, ond roedd hi'n bwysig nodi bod hynny'n annhebygol o gael ei gyflawni, a gofynnwyd am lithriant o £8m.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adran newydd ar gynnydd a ddangosai a oedd cynlluniau wedi'u cwblhau, ar y gweill ac ar y trywydd iawn i'w cwblhau, ac roedd y mwyafrif naill ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn i'w cwblhau, hy, Makerspace Llyfrgell y Barri
- Roedd ceisiadau i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, hy, cario ymlaen neu ailbroffilio yn erbyn y Rhaglen Gwella Tai a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) newydd yn Llandŵ.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Soniodd yr Is-Gadeirydd am y llithriad sydd ei angen yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac am yr angen i fod yn ymwybodol o lithriant yn llawer cynt er mwyn mynd i'r afael â hynny'n llawer mwy prydlon. Eglurwyd bod yr Adran Gyllid yn ceisio mynd i'r afael yn barhaus â'r sefyllfa llithriant, a'i bod wedi ceisio creu proffil mor fanwl gywir â phosib ar gyfer hynny. Roedd hi hefyd yn bwysig rhoi sicrwydd i swyddogion y gallent fwrw ymlaen i gyflawni cynlluniau er gwaethaf llithriant, ac y gellir cario'r cyllid ymlaen ar gyfer y cynlluniau hynny. Gallai rhai o'r cynlluniau hefyd effeithio'n gyflym ar y cyfriflyfr. Mewn ymateb i'w gwestiwn dilynol am y cais am £909k o lithriant gan Adran yr Amgylchedd a Thai mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni o fewn y Rhaglen Gwella Tai, ac a fu hynny'n rhan o ystyriaethau'r gyllideb, byddai ateb manylach yn cael ei geisio a'i rannu â'r Pwyllgor cyn bo hir.
- Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Haines ynghylch cyflawni gwaith gwydro lefel uchel yng Nghanolfan Hamdden Penarth yn y gaeaf yn rhan o'r llithriant, eid ar drywydd hynny a rhoi ymateb i'r Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI'R defnydd o Bwerau Brys o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

(4) NODI'R newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1-4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

848 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y FRO 2023-28 (CAC) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn esbonio'r modd yr oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi datblygu ei Gynllun Llesiant drafft (a oedd wedi'i lywio gan yr Asesiad Llesiant a gyhoeddwyd yn 2022 a thrwy ymgysylltu) er ystyriaeth yr Aelodau.

Roedd yr adroddiad yn rhoi esboniad byr o gynnwys y Cynllun drafft, gan gynnwys yr amcanion, ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a chamau gweithredu (19 cam).

Roedd y BGC wedi ymgynghori ar y Cynllun Llesiant drafft am 12 wythnos o fis Tachwedd 2022 hyd fis Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r

sylwadau a gafwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac yn esbonio'r newidiadau dilynol a wnaed i'r Cynllun.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Holodd y Cynghorydd Dr. Johnson pa gamau oedd yn cael eu cymryd i ymateb i'r adborth gan Gyngor Tref y Barri a Llywodraeth Cymru (LlC) yn rhan o'r ymgynghoriad, sef sicrhau mwy o gydnabyddiaeth o fewn y Cynllun Llesiant Drafft i'r Gymraeg a Diwylliant Cymru, ac i helpu Cymru i gael "diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Eglurwyd bod adran wedi'i hychwanegu at yr adroddiad/y Cynllun i gefnogi a rhoi sylw i'r agweddau hyn, hy, chwilio am fwy o gyfleoedd i ddarparu cymorth oed gyfeillgar, cyngor ar gostau byw a llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sefydlu cysylltiadau gwell â chymunedau Cymraeg eu hiaith yn y Fro, a chefnogi rhai o uchelgeisiau Sero Net o fewn y Cynllun o safbwynt diwylliannol.
- Mewn ymateb i ymholiad y Cadeirydd ynghylch lefel yr ymateb a nifer yr ymgyngoreion a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun, esboniwyd bod lefel yr ymateb yn unol â'r disgwyl; yn ddelfrydol byddai'r lefel honno wedi bod yn uwch, ond ymgynghoriad ar fersiwn derfynol o ddogfen weddol dechnegol oedd hwn, a bu ymgysylltu sylweddol yn flaenorol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun: yn amrywio rhwng Cyngor Ieuenctid y Fro a LlC. Ar ôl ymgynghori, byddai partneriaid y BGC hefyd yn dod draw i'r Pwyllgor Craffu er mwyn cyflwyno'r gwaith a gyflawnwyd ganddynt yn rhan o'r Cynllun, er mwyn i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o hynny, ac ystyried hynny.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad, y Cynllun Lles drafft wedi'i ddiweddaru (Atodiad A), yr adroddiad adborth ymgynghori (Atodiad B) a'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad C) yn cael ei nodi.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

849 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER A RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU 2022/2023 (CAC) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, yn hysbysu'r Aelodau ynghylch y cynnydd a wnaed gydag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol, ac yn cyflwyno Amserlen y Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/23:

- 2021-22 Olrhain Argymhellion Heb eu Cwblhau (Atodiad A);
- Chwarter 1$^{af}$ Ebrill - Mehefin 2022 (Atodiad B);
- 3$^{ydd}$ Chwarter Hydref - Rhagfyr 2022 (Atodiad C); a

- Diweddariad o Amserlen y Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/23 (Atodiad CH).

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno

- cododd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Dr. Johnson bryderon ynghylch hyd y cyfarfodydd ar hyn o bryd, a oedd yn deillio o hyd yr agendâu dan sylw, a gofynnwyd am gael ystyried symleiddio'r rhain ac/neu gynnal mwy o gyfarfodydd arbennig neu ychwanegol.
- Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson y dylid gwneud mwy i drefnu adroddiadau a geisir gan y Pwyllgor yn ôl blaenoriaeth, gan gyfeirio at yr adroddiadau yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdanynt yn gysylltiedig â Oracle a'r Gwasanaethau Hamdden, yr oedd y Pwyllgor yn dal i ddisgwyl amdanynt. Hefyd, roedd y swm aruthrol o adroddiadau a gwaith papur cysylltiedig yn golygu y gallai'r Aelodau fethu craffu'n ddigonol ar y dogfennau dan sylw. Adleisiwyd y pwynt hwn gan y Cynghorydd Haines wrth drafod ei bryderon ynghylch diwydrwydd dyladwy ar gyfer eitemau'r agenda, oherwydd maint a swmp yr adroddiadau, a chyfanswm yr agendâu mewn cyfarfodydd.
- Byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn adrodd y sylwadau uchod, ayyb, wrth y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo Amserlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd wedi’i hatodi yn Atodiad D yr adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i’r cyhoedd.